## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Hwn yw'r degfed gorchymyn cychwyn a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn adran 75(3) o'r Ddeddf i rym. Mae adran 75(3) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, o dan amgylchiadau penodol, i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr penodol sydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol.